**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament

Dyddiad: 6 Mai 2020

Teitl: **Y Senedd: Senedd i Gymru**

O heddiw ymlaen, mae enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn newid i Senedd Cymru neu Welsh Parliament. 'Aelodau o'r Senedd' (AS) neu 'Members of the Senedd' (MS) fydd teitlau yr Aelodau etholedig.

Y llynedd pan basiom ni Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru), gosodwyd heddiw mewn cyfraith fel y dyddiad ar gyfer newid ein henw. Ni fyddai neb ohonom wedi rhagweld yr amgylchiadau presennol.

Mae ymateb i argyfwng y coronafeirws yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Senedd a'r Aelodau.

Nawr, yn fwy nag erioed, mae ein dinasyddion yn disgwyl senedd genedlaethol gref sy'n gweithio dros Gymru: Aelodau'n gofyn cwestiynau i'r Llywodraeth, yn craffu ar bwerau a deddfau brys, ac yn cynrychioli eu cymunedau hyd eithaf eu gallu yn y Senedd.

Mae rôl ein senedd yn llawer mwy arwyddocaol na'i henw. Ond mae'n briodol bod yr enw'n adlewyrchu'r ystod o bwerau a chyfrifoldebau sydd gan y senedd hon ar ran pobl Cymru. Mae'r Senedd heddiw yn sefydliad gwahanol iawn i'r un a sefydlwyd fel Cynulliad ym 1999. Bellach mae ganddo bwerau deddfu llawn a'r gallu i amrywio trethi ac mae'r enw newydd yn cyfleu statws cyfansoddiadol y Senedd fel senedd genedlaethol. Cytunodd Aelodau'r newidiadau cysylltiedig i Reolau Sefydlog y Senedd ym mis Mawrth. Daw'r rhain i rym heddiw

Byddwn yn parhau i helpu pobl i ddeall pwerau'r Llywodraeth a'r Senedd, sut y mae'r Senedd yn gweithio a sut mae'r cyfreithiau rydyn ni'n eu pasio yn effeithio ar eu bywydau.

Mae'r Senedd wedi addasu'n gyflym i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cyfle i graffu ac i bobl gael eu cynrychioli gan eu Haelodau trwy sesiynau seneddol rhithwir. Yn wir, ni oedd y senedd gyntaf yn y DU ac un o'r cyntaf yn y byd i wneud hynny.

Nid nawr yw'r amser i weithredu'r newidiadau gweledol a fydd yn cyd-fynd â'r enw newydd. Maes o law, pan fydd yn briodol, byddwn yn newid yr arwyddion y tu mewn a'r tu allan i'n Senedd.

Am y tro, yn y cyfnod heriol tu hwnt hwn, ein blaenoriaeth yw cyflawni pwrpas ein Senedd, sef dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif, a gwneud cyfreithiau sy'n gwasanaethu pobl Cymru orau.

**Elin Jones AS**
**Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN